GOOD Day®

I CHWARAE.

Gem Pentref Gwyliau Summit Canllaw Defnyddwyr i Athrawon

Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

Dod ag Adeiladau yn Fyw

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Y Gêm	3
Awgrymiadau ar gyfer ei Defnyddio	4
Crynodeb o'r Gweithgareddau	4
Gweithgaredd 1 - Gyrfaoedd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau	5
Gweithgaredd 2 - Ystyriaethau Amgylcheddol	6
Gweithgaredd 3 - Materion Gwyddoniaeth	8
Gweithgaredd 4 - Cyfathrebu	10
Ynglŷn â SummitSkills	11
Dolenni Gwe Defnyddiol	12

Pentref Gwyliau Summit

Cyflwyniad

Mae gweithgareddau y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau yn cyffwrdd â'n bywydau ar bob lefel ac eto nid yw pobl ifanc ar y cyfan yn ymwybodol o hyn a'r rôl y gallant eu chwarae wrth adeiladu ar gyfer y dyfodol.

Mae'r sector yn cynnwys y diwydiannau canlynol:

- Trydanol-dechnegol
- Gwresogi
- Awyru
- Tymheru
- Rheweiddiad
- Plymo

Mae datblygiadau a gofynion technegol ac amgylcheddol parhaus yn creu amrywiaeth o gyfleoedd diddorol a heriol drwy'r sector cyfan.

Mae gêm Pentref Gwyliau Summit yn targedu'r ystod oed 14-19 ac yn anelu at ymgysylltu, hysbysu a diddanu.

Y Gêm

Gellir chwarae'r gêm o CD ROM ac mae ar gael hefyd ar wefan gyrfaoedd SummitSkills www.goodday.org.uk

Mae'r chwaraewr yn cymryd rôl goruchwyliwr peirianneg gwasanaethau adeiladau. Yn y rôl hon, mae'n rhaid i chwaraewyr wneud penderfyniadau er mwyn:

- Cynnal gwaith arferol
- Dirprwyo
- Ymdrin ag argyfyngau a digwyddiadau annisgwyl

Wrth wneud pob penderfyniad, mae'n rhaid i'r chwaraewr gydbwyso cost ag effeithlonrwydd ynni, ffactorau amgylcheddol a chysur ymwelwyr. Mae'r nodwedd gwybodaeth [i] ar gyfer pob opsiwn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i helpu'r chwaraewr i wneud ei benderfyniad.

Mae canlyniad i bob penderfyniad a phob gweithred. Adlewyrchir hyn yn adroddiad Arfarniad Perfformiad y chwaraewr y gellir ei weld drwy gydol y gêm a'i argraffu ar y diwedd.

Ar ôl i'r defnyddiwr fewngofnodi, mae 3 opsiwn o ran hyd y gêm:

- Gêm Fer (tua 5 munud)
- Gêm Ganolig (tua 10 munud)
- Gêm Hir (tua 20 munud)

Bydd y gêm yn wahanol bob tro y caiff ei chwarae gan fod sefyllfaoedd a digwyddiadau yn digwydd ar hap. Po hiraf y gêm, po fwyaf o sefyllfaoedd, digwyddiadau ac argyfyngau fydd yn digwydd.

Awgrymiadau ar gyfer ei Defnyddio

Offeryn gyrfaoedd yw'r gêm hon yn bennaf. Fodd bynnag, gallech gael ei bod yn adnodd defnyddiol ar gyfer meysydd eraill y cwricwlwm; gellir ei defnyddio fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth, fel ysgogiad i edrych ar faes pwnc yn fwy manwl, i annog ymchwil pellach ac i symbylu trafodaeth neu ddadl.

Rhagwelir y defnyddir y gêm gan unigolion yn gweithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach, neu y gellir ei defnyddio fel cyflwyniad i'r dosbarth cyfan.

Crynodeb o Weithgareddau

Mae rhai gweithgareddau a awgrymir wedi'u cynnwys yn y llyfryn hwn. Mae crynodeb ohonynt isod a manylir arnynt ymhellach yn nes ymlaen.

Gweithgaredd 1 – Mae gyrfaoedd mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau yn gofyn bod myfyrwyr yn darganfod mwy am y diwydiant, cyfleoedd am swyddi a chymwysterau cysylltiedig.

Gweithgaredd 2 – Mae Ystyriaethau Amgylcheddol yn gofyn bod myfyrwyr yn myfyrio nid yn unig ar y materion amgylcheddol yn y gêm ond ar y ddadl ynni ehangach, gan edrych ar ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ar ffynonellau ynni.

Gweithgaredd 3 – Mae Materion Gwyddoniaeth yn cymryd rhai o'r sefyllfaoedd o'r gêm ac yn edrych ar yr ongl 'sut mae'n gweithio' yn ogystal ag edrych ar ddefnydd a datblygiadau'r dyfodol.

Gweithgaredd 4 – Mae cyfathrebu yn defnyddio'r gêm fel ysgogiad ar gyfer ymarfer CC, gan ystyried safbwynt y cwsmer a'r defnydd o arddulliau iaith priodol i hyrwyddo'r pentref.

Gweithgaredd 1
Gyrfaoedd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

Nod
Dysgu am y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau, cwmpas y swyddi o fewn y diwydiannau cysylltiedig a chymwysterau perthnasol.

Fformat
Gweithio mewn grwpiau bach neu'n unigol i chwarae gêm Pentref Gwyliau Summit - dewiswch yr opsiwn Canolig. Ymchwil pellach drwy wefan SummitSkills neu'r Map Gyrfaoedd.

Amseru
- Caniatewch 10 munud i chwarae'r gêm
- Caniatewch 10 munud i ddosbarthu'r tasgau
- Caniatewch 10 munud i nodi'r rolau swyddi
- Caniatewch 10 munud i nodi'r cymwysterau gofynnol
- Caniatewch 20 munud i'r grŵp roi adborth ar eu canfyddiadau a chreu tabl meistr o wybodaeth

Mae'r amseriadau hyn at ddiben arweiniad yn unig a gellir eu haddasu yn ôl yr angen.
Gellir ymestyn y gweithgaredd hwn i ganiatáu mwy o amser i ymchwilio.

Adnoddau
- Gliniadur neu PC addas gyda naill ai gyriant CD-ROM a CD Rom Pentref Gwyliau Summit, neu fynediad i'r gêm drwy wefan SummitSkills
- Mynediad i'r Rhyngrwyd neu gopïau o Fap Gyrfaoedd SummitSkills
- Siartiau troi neu fwrdd gwyn ac ysgrifbinnau

Canlyniadau
Dylai pob tîm:

- Wneud rhestr o'r mathau o dasgau a gyflawnwyd yn ystod eu gêm
- Dosbarthu'r tasgau yn ôl y diwydiant cysylltiedig
- Nodi rôl swydd y person fyddai'n cwblhau pob tasg (Defnyddiwch y Map Gyrfaoedd (fersiwn pdf) ar wefan SummitSkills i wneud hyn)
- Ar gyfer pob rôl swydd, nodwch y cymwysterau gofynnol

Grwp i gasglu eu gwybodaeth yn dabl meistr ar y diwedd.

Gweithgaredd 2
Ystyriaethau Amgylcheddol

Nod
Amlygu materion amgylcheddol a wynebir yn ein bywyd bob dydd. Gan ddefnyddio'r materion a wynebir yn y gêm fel man cychwyn, bydd myfyrwyr yn darganfod am ffynonellau ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy. Gall myfyrwyr ymchwilio i'r ffynonellau ynni a ddefnyddir yn y wlad hon a gweld sut ydym yn cymharu â'n cymdogion.

Fformat
Gweithio mewn grwpiau bach neu'n unigol i chwarae gêm Pentref Gwyliau Summit – dewiswch yr opsiwn Canolig.
Gellir cael gwybodaeth bellach drwy'r rhyngrwyd neu o werslyfrau perthnasol ar gyfer y cyflwyniad.

Amseru
- Caniatewch 10 munud i chwarae'r gêm
- Caniatewch 10 munud i nodi materion amgylcheddol posib drwy drafodaeth - defnyddiwch fap y pentref fel ysgogiad - a nodi ffynonellau ynni posib, rhai adnewyddadwy ac anadnewyddadwy
- Caniatewch 20 munud i ymchwilio i ffynonellau ynni a'u defnydd yn y DU ac mewn gwledydd eraill
- Caniatewch 20 munud i'r grŵp roi adborth ar eu canfyddiadau

Mae'r amseriadau hyn at ddiben arweiniad yn unig a gellir eu haddasu yn ôl yr angen.

Gellir ymestyn y gweithgaredd hwn i ganiatáu mwy o amser i ymchwilio. Fel arall efallai yr hoffech ddarparu gwybodaeth i'r grŵp ei dehongli.

Adnoddau
- Gliniadur neu PC addas gyda naill ai gyriant CD-ROM a CD Rom Pentref Gwyliau Summit, neu fynediad i'r gêm drwy wefan SummitSkills
- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Gwerslyfrau perthnasol
- Siartiau troi neu fwrdd gwyn ac ysgrifbinnau

Canlyniadau

- Trafodaeth grŵp gychwynnol am faterion amgylcheddol yn y gêm
- Ar gyfer arweiniad, mae rhai o'r materion sy'n codi yn y gêm yn cynnwys:
  - Defnyddio bylbiau ynni isel
  - Y defnydd o ddŵr 'llwyd'
  - Defnyddio celloedd ffotofoltaidd
  - Defnyddio ynni'r gwynt
  - Ystyriaethau dŵr gwastraff (e.e. compostio toiledau)
  - Gwastraffu ynni gwres
  - Y defnydd economaidd o dymheru
- Lluniwch restr o ffynonellau ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy a gwnewch restr o fanteision ac anfanteision ar gyfer pob un
- Cyflwyniadau grŵp ynglŷn â:
  - Problemau penderfynu pa ffynonellau ynni i'w defnyddio ar gyfer y wlad gyfan ac ystyriaethau'r dyfodol
  - Ffynonellau ynni a ddefnyddir gan wledydd eraill ac unrhyw resymau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol dros hynny
- Gallai gwaith ymestynnol gynnwys dod o hyd i faterion cysylltiedig a drafodir yn y cyfryngau, papurau newydd, y rhyngrwyd, podlediadau ac ati.

Gweithgaredd 3
Materion Gwyddoniaeth

Nod
Archwilio rhai o'r materion gwyddoniaeth sy'n codi yn ystod y diwrnod gwaith yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Fformat
Gweithio mewn grwpiau bach neu'n unigol i chwarae gêm Pentref Gwyliau Summit – dewiswch yr opsiwn Canolig.

Nodwch unrhyw dasgau a gyflawnir sy'n cynnwys y canlynol:

- Cynhyrchu ynni drwy ddulliau amgen
- Ailgylchu dŵr
- Dulliau amgen o gael gwared â charthffosiaeth
- Tasgau arbed ynni

Dyrannwch un o'r pynciau hyn naill ai i'r dosbarth cyfan neu un ar gyfer pob grŵp.

Dod i wybod am y pwnc o'r ongl wyddonol i gynnwys pethau fel:

- Sut mae'n gweithio
- Pa mor gyffredin yw'r defnydd
- Technolegau'r dyfodol yn y maes hwn

Amseru
- Caniatewch 10 munud i chwarae'r gêm
- Caniatewch 10 munud i drafod y materion gwyddoniaeth sy'n codi
- Caniatewch 40 munud i ymchwilio i a chreu diagram pry cop

Mae'r amseriadau hyn at ddiben arweiniad yn unig a gellir eu haddasu yn ôl yr angen.
Gellir ymestyn y gweithgaredd hwn i ganiatáu mwy o amser i ymchwilio.

Adnoddau

- Gliniadur neu PC addas gyda naill ai gyriant CD-ROM a CD Rom Pentref Gwyliau Summit, neu fynediad i'r gêm drwy wefan SummitSkills
- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Gwerslyfrau perthnasol
- Siartiau troi neu fwrdd gwyn ac ysgrifbinnau

Canlyniadau

- Defnyddio'r rhyngrwyd ac adnoddau eraill ar gyfer ymchwil
- Dylai pob unigolyn neu grŵp ddatblygu map meddwl neu ddiagram swigod ar gyfer eu pwnc, i ddangos gwybodaeth am sut mae'n gweithio, y defnydd a'r dyfodol
- Y grŵp cyfan i rannu eu canfyddiadau ar y diwedd

Gweithgaredd 4
Cyfathrebu

Nod
Cynhyrchu deunydd CC ar gyfer Pentref Gwyliau Summit, gan ganolbwyntio ar agweddau positif fydd yn apelio at ymwelwyr.

Fformat
- Gweithio mewn grwpiau bach neu fel unigolion i chwarae gêm Pentref Gwyliau Summit - dewiswch yr opsiwn Hir. Wrth chwarae, nodwch:
  - Y nodweddion a'r gweithgareddau sydd ar gael
  - Polisi amgylcheddol y pentref a mesurau effeithlonrwydd ynni
  - Datblygiadau newydd ar y safle
- Rydych wedi cael eich cyflogi gan y pentref i ysgrifennu paragraff byr i'w ddefnyddio at ddibenion cyhoeddusrwydd:
  - Gall grwpiau naill ai gynhyrchu taflen fach i hysbysebu'r pentref neu greu poster

Amseru
- Caniatewch 20 munud i chwarae'r gêm a gwneud nodiadau
- Caniatewch 30 munud i greu drafft cyntaf y deunyddiau marchnata
- Caniatewch 10 munud i gyflwyno ar y diwedd

Mae'r amseriadau hyn at ddiben arweiniad yn unig a gellir eu haddasu yn ôl yr angen.
Gellir ymestyn y gweithgaredd hwn i ganiatáu mwy o amser i ymchwilio.

Adnoddau
- Gliniadur neu PC addas gyda naill ai gyriant CD-ROM a CD Rom Pentref Gwyliau Summit, neu fynediad i'r gêm drwy wefan SummitSkills
- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Siartiau troi neu fwrdd gwyn ac ysgrifbinnau

Canlyniadau
- Cyflwyniad byr i'r dosbarth er mwyn amlygu:
  - Agweddau positif ar y pentref
  - Y math o iaith a ddefnyddir mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd

Ynglŷn â SummitSkills

SummitSkills yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau. Rydym wedi ein creu gan gyflogwyr, i gyflogwyr, i fynd i'r afael â phum prif amcan:

- Llenwi bylchau sgiliau
- Gwella cynhyrchedd
- Cynnig cynnydd gyrfaol
- Datblygu gweithlu cymwys
- Hyrwyddo agenda sgiliau'r sector

Mae ymagwedd a arweinir gan gyflogwyr SummitSkills yn rhoi i fusnesau yn y sector rôl allweddol wrth gynyddu eu cynhyrchedd a'u proffidioldeb nhw'u hunain a'r wlad. Drwy sefydlu Cynghorau Sgiliau Sector, mae gan gyflogwyr lwybr uniongyrchol bellach i ddylanwadu ar gynllunio strategol mewn perthynas â sgiliau a hyfforddiant.

Ynglŷn â Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu

Mae'r sector peirianneg gwasanaethau adeiladau yn cynrychioli'r diwydiannau trydanol-dechnegol, gwresogi, awyru, tymheru, rheweiddiad a phlymo.

Mae dros 60,000 o fusnesau yn y sector a dros 600,000 o gyflogeion.

Mae'r gwaith a wneir gan y sector bob blwyddyn gwerth £20 biliwn.

Mae hwn yn 3% o'r CMC (Cynnyrch Mewnwladol Crynswth).

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â SummitSkills yn: Vega House, Opal Drive, Fox Milne, Milton Keynes, MK15 0DF

Llinell gymorth gyrfaoedd: 08000 688336

Ebost: enquiries@summitskills.org.uk

Neu ewch i'n gwefan yn www.goodday.org.uk

Dolenni Gwe Defnyddiol

Gyrfaoedd

Apprenticeships	http://www.apprenticeships.org.uk
Careers Wales	http://www.careerswales.com
Careers Scotland	http://www.careers-scotland.org.uk
Careers Service Northern Ireland	http://www.careersserviceni.com
Connexions	http://www.connexions.gov.uk
Learn Direct	http://www.learndirect-advice.co.uk

Cymdeithasau Masnach

Association of Plumbing & Heating Contractors	http://www.aphc.co.uk
Electrical Contractors' Association	http://www.eca.co.uk
Heating & Ventilating Contractors' Association	http://www.hvca.org.uk
Scottish & Northern Ireland Plumbing Employers' Federation	http://www.snipef.org
SELECT	http://www.select.org.uk

Sefydliadau Proffesiynol

Chartered Institution of Building Services Engineers	http://www.cibse.org
Chartered Institute of Plumbing & Heating Engineering	http://www.ciphe.org.uk
Energy Institute	http://www.energyinst.org.uk
Institution of Gas Engineers and Managers	http://www.igem.org.uk
Institution of Engineering & Technology	http://www.theiet.org.uk
Institution of Lighting Engineers	http://www.ile.org.uk
Institution of Mechanical Engineers	http://www.imeche.org.uk
Institution of Refrigeration	http://www.ior.org.uk
Society of Environmental Engineers	http://www.environmental.org.uk
Society of Light and Lighting	http://www.cibse.org

Summit SKILLS

Prif Swyddfa
Vega House,
Opal Drive, Fox Milne,
Milton Keynes MK15 0DF

Llinell Gymorth Gyrfaoedd
08000 688336
enquiries@summitskills.org.uk

www.goodday.org.uk

Cyflwynir Good Day i chi gan SummitSkills, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau, i'ch helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eich swydd ddelfrydol a'r sgiliau y mae eu hangen arnoch i'w hennill.